Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-891
Ein cyf/Our ref KW/07571/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd - Y Pwullgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

12 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 20 Tachwedd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 5 Tachwedd ynghylch y ddeiseb i ddod â phrofion cenedlaethol ar gyfer plant mor ifanc â 6 oed i ben. Nodaf fod aelodau'r Pwyllgor yn gofyn am adborth ar y cyfiawnhad penodol dros ddefnyddio asesiadau personol ar-lein gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn fy llythyr dyddiedig 18 Hydref, soniais am y broses o symud o brofion ysgrifenedig i asesiadau personol ar-lein. Dywedais hefyd y byddai'r profion ysgrifenedig yn cael eu cynnal mewn ysgolion am y tro olaf yn 2020 ac un prawf yn unig fydd yn cael ei wneud ar bapur y flwyddyn honno, sef Rhifedd (Rhesymu). Golyga hyn fod y profion cenedlaethol ysgrifenedig yn dod i ben er mwyn symud at ddull asesu arloesol, ymaddasol ar gyfer darllen a rhifedd.

Rwy'n parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ethos y Cyfnod Sylfaen a'i ffordd o addysgu a dysgu. Nod y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yw gwneud dysgu'n berthnasol ac yn rhywbeth y mae dysgwyr yn ei fwynhau, gan sicrhau bod plant yn datblygu'r sgiliau hanfodol a fydd yn sylfaen ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol.

Efallai bod y Pwyllgor yn gwybod y cynhaliwyd archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yn 2014 gan yr Athro Iram Siraj. Nodwyd yng nghanfyddiadau'r archwiliad na fyddai'r profion ar ddiwedd y cyfnod yn amharu'n ormodol ar addysgeg ac arferion y Cyfnod Sylfaen cyn belled â bod cyfarwyddyd clir yn cael ei roi a bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben yr asesiadau personol ar-lein yw darparu gwybodaeth am sgiliau dysgwyr fel bod yr athrawon yn gallu eu helpu i wneud cynnydd. Mae datblygu sgiliau darllen a rhifedd yn helpu i agor y drysau i ddysgu ar draws y cwricwlwm. Felly, mae'n bwysig ein bod yn dechrau asesu'r sgiliau hyn yn gynnar fel bod gan athrawon wybodaeth am ddysgwyr unigol er mwyn gallu rhoi cefnogaeth iddynt.

Datblygwyd yr asesiadau newydd i adlewyrchu'r set sgiliau a amlinellir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, gan ddechrau gyda'r datganiadau sgiliau ar gyfer Blwyddyn 2. Ceir cronfa fawr o gwestiynau sy'n galluogi plant o bob oed i ymateb i gwestiynau sy'n gweddu i'w lefel o ddysgu a gallu ac yn eu herio. Bydd symud i asesiadau ar-lein yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael asesiad personol wedi'i deilwra sy'n seiliedig ar ei lefel o ddysgu a'u hanghenion.

Mae'r asesiadau hyn yn llawer mwy hyblyg ac yn llawer llai ffurfiol na'r profion ysgrifenedig. Gall athrawon eu defnyddio pan fyddant yn teimlo y cânt yr wybodaeth ffurfiannol orau ohonynt.

Gellir eu cynnal mewn grwpiau bach os bydd angen ac nid oes angen cwblhau'r asesiadau o fewn amser penodol. Gall athrawon ddefnyddio'u barn broffesiynol i stopio asesiad er mwyn i blant iau gael seibiant.

Ni ddylid defnyddio'r asesiadau hyn i fesur perfformiad ysgol. Rwyf wedi datgan yn gwbl glir mai diben yr asesiadau yw rhoi adborth defnyddiol ac amserol i athrawon ar sgiliau eu dysgwyr, ac y gallant fod yn rhan o'r wybodaeth gyffredinol sydd ar gael i bob athro i lywio eu haddysgu a'u gwaith cynllunio.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education